



# I gors ai peidio i gors? Dyna'r cwestiwn.

## Datganiadau ac Atebion

Rownd	Datganiad	Ateb	Ffaith
1	Mawndiroedd yw storfa garbon naturiol fwyaf y byd.	Gwir!	Mae mawndiroedd yn ymestyn dros lai na 3% o arwyneb y Ddaear, ond credir eu bod yn cynnwys dwywaith cymaint o garbon â choedwigoedd y byd. Oherwydd hyn, maent yn hollbwysig o ran amddiffyn rhag effeithiau newid hinsawdd.
2	Mae mawn wedi'i wneud o gymysgedd o dywod a chlai.	Gau!	Mae mawn wedi'i wneud o ddeunydd planhigion sydd wedi pydru'n rhannol, migwyn (sphagnum) yn bennaf, ac mae'n ffurfio mewn amodau dwrlawn.
3	Mae migwyn sydd i'w gael ar gorsydd yn sugno mwy nag wyth gwaith ei bwysau ei hun o ddŵr.	Gwir!	Caiff migwyn ar gorsydd ei fwydo gan ddŵr glaw, sy'n brin o faetholion a rhywfaint yn asidig. Oherwydd y diffyg ocsigen a'r amodau dwrlawn, mae'r migwyn yn pydru'n hynod o araf hyd nes ei fod yn troi'n bridd mawn brown tywyll. Carpedi amryliw o figwyn yw sail mawndiroedd, gyda'r dŵr yn cael ei ddal yn ei ffurf sbyngaid.
4	Mae corysdd yn cynnig lleoedd i anifeiliaid bori.	Gwir!	Os cânt eu rheoli'n ofalus, gellir gweld gwartheg, defaid a cheffylau'n pori ar gorsydd. Hefyd, gellir torri'r brwyn sy'n tyfu ar gorsydd ar gyfer creu deunydd gorwedd i dda byw.
5	Mae corysdd yn darparu bwyd i bobl.	Gwir!	Mae modd dod o hyd i fwyar duon, eirin gwyllt, eirin ysgaw, llus a llugaeron yn tyfu'n wyllt ar gorsydd.
6	Mae gan bridd mawn gynnwys lleithder o lai na 50%.	Gau!	Mae mawn mewn gwlyptiroedd yn debygol o fod â chynnwys lleithder o fwy na 95%, os yw heb ei droi. Credir bod mwy o bethau solet mewn llaeth nag mewn mawn!
7	Mae mawndiroedd a niweidiwyd yn cyfrannu'n fawr at allyriadau nwyon tŷ gwydr.	Gwir!	Bob blwyddyn, mae mawndiroedd yn rhyddhau bron i 6% o allyriadau CO <sub>2</sub> y byd. Felly, gall adfer mawndiroedd arwain at leihad sylweddol mewn allyriadau a'n helpu i daclo newid hinsawdd.



Rownd	Datganiad	Ateb	Ffaith
8	Gall cyforgorsydd helpu i atal perygl llifogydd.	Gwir!	Mae cyforgorsydd yn cynnig gwasanaeth unigryw yn y frwydr yn erbyn llifogydd. Mae'r mawn yn sugno ac yn arfau llif y dŵr glaw, gan helpu i atal llifogydd ymhellach i lawr yr afon.
9	Mae mawn sydd â dyfnder o 10 metr yn cymryd mil o flynyddoedd i ffurfio.	Gau!	Mae mawn sydd â dyfnder o 10 metr yn cymryd 10,000 o flynyddoedd i ffurfio. Mae priddoedd mawn yn cronni oddeutu 1mm bob blwyddyn, felly gall gymryd hyd at 1,000 o flynyddoedd i 1 metr o fawn ffurfio!

## Chwilio am ragor o adnoddau dysgu, gwybodaeth, neu ddata?

Cysylltwch ag: [addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk) os gwelwch yn dda, neu ewch i <https://cyfoethnaturiol.cymru/dysgu>

Am fformatau gwahanol; print bras, neu ieithoedd gwahanol, cysylltwch ag:  
[ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)  
0300 065 3000